Bwletin y Farchnad HCC

Ebrill 2025

> Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y sector cig eidion a nifer y ffactorau sy'n dylanwadu ar y farchnad ar hyn o bryd, yn enwedig gan fod prisiau pwysau marw yn cynyddu bob wythnos.
>
> **Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**

PRIS

- Mae prisiau pwysau marw gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr wedi codi'n ddramatig ers diwedd 2024, ac maen nhw bellach **£2/kg yn uwch na'r un cyfnod y llynedd**. Fe wnaeth y cyfartaledd bustych dorri recordiau hanesyddol ar £5/kg ym mis Medi 2024, cyrhaeddodd £6/kg erbyn Chwefror 2025, ac o ystyried y tueddiadau cyfredol; mae'n tueddu tuag at £7/kg erbyn diwedd y gwanwyn.
- Mae prisiau gwartheg difa wedi dilyn tuedd debyg, gyda phwysau marw presennol tua £1.60/kg yn uwch na lefelau blwyddyn gynt, gan basio £4/kg ym mis Ionawr 2025 a £5/kg ddechrau mis Ebrill.
- Mae prisiau cig eidion yr UE wedi dringo'n gyflymach yn ddiweddar nag ym Mhrydain, gan leihau'r bwlch prisiau nodweddiadol i oddeutu 94.8c/kg ar gyfer bustych ym mis Mawrth.

CYFLENWAD

- Roedd cyfanswm o 508,000 pen o **wartheg dethol** y DU ar gyfer Chwarter 1 2025, **gostyngiad o 3% flwyddyn ar flwyddyn**, gyda gostyngiadau ar draws pob categori (teirw ifanc -12%, bustych -4%, heffrod -1%).
- Mae trwybwn heffrod yn parhau i fod yn uchel o'i gymharu â lefelau hanesyddol ac mae bellach yn cynrychioli 43% o gyfanswm trwybwn dethol, i fyny o 40% yn 2022.
- Mae'r prif lefelau trwybwn gwartheg presennol ar eu hisaf ers 2022, a oedd i'w ddisgwyl gan fod ffigurau poblogaeth gwartheg BCMS yn dangos y byddai llai o anifeiliaid ar gael ar gyfer cynhyrchu cig eidion yn y tymor hwy, sy'n debygol o gael ei adlewyrchu yn y ffigurau cyfredol.
- **Gostyngodd trwybwn gwartheg llawn-dwf o 4%** i 155,000 pen. Gyda thrwybwn lloi ychydig o dan 20,000 pen, mae cyfanswm trwybwn gwartheg wedi gostwng 4% ar lefelau blwyddyn gynt ar 682,400 pen ar gyfer Ch1.
- Mae'r cyfuniad o lai o niferoedd lladd a phwysau carcas ysgafnach wedi **lleihau cynhyrchiant cig eidion y DU 3%** i 224,800 tunnell yn Ch1.

MASNACH

- Cyfanswm **allforion** cig eidion ffres ac wedi rhewi y DU ar gyfer Ionawr a Chwefror 2025 oedd 16,100 tunnell, **i lawr 10%** ar y flwyddyn, oherwydd cynhyrchiant domestig tynnach (a oedd i lawr 3% yn ystod y cyfnod).
- Wrth edrych ar 2024; roedd allforion 9% yn uwch na 2023 ar 112,500 tunnell, gydag 86% ar gyfer gwledydd yr UE.
- Iwerddon dderbyniodd y gyfran fwyaf o'r gyfaint a allforiwyd yn 2024, ond roedd cyfeintiau i lawr tua 13% hyd yma yn 2025 - gan adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol.
- Gostyngodd **mewnforion** cig eidion ffres ac wedi rhewi ar gyfer Ionawr a Chwefror 2025 **o 14%** i 37,400 tunnell. Fodd bynnag, cododd cyfeintiau o wledydd y tu allan i'r UE 17%, wedi'u sbarduno gan Awstralia (+144%), Brasil (+36%), a Seland Newydd (+18%).
- Wrth edrych ar 2024; cynyddodd mewnforion o 8% i 240,700 tunnell, gydag Iwerddon yn cyflenwi 77% er gwaethaf gostyngiad o 16%.

GALW

- Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae chwyddiant wedi lleddfu am yr ail fis yn olynol, wrth i brisiau godi ar gyfradd flynyddol o 2.6% ym mis Mawrth. Mae hyn yn llawer arafach na'r uchafbwynt chwyddiant o 11% a welwyd yn 2022. Fodd bynnag, mae costau defnyddwyr a busnesau yn parhau i godi, sy'n rhoi **pwysau ar bŵer gwario defnyddwyr** mewn manwerthu, tra bod prisiau fferm cig eidion yn mynd yn uwch bob wythnos.
- Yn ôl y data diweddaraf gan Kantar; roedd cyfanswm y cig eidion a werthwyd mewn siopau ym Mhrydain yn ystod y 12 wythnos hyd at 23 Mawrth 2025 yn **sefydlog ar y flwyddyn (gostyngiad o 0.8%)**, tra bod cynnydd yn y pris cyfartalog o ryw 5% yn sbarduno cynnydd o 4% yng nghyfanswm y gwariant yn gyffredinol.

BYD-EANG

- **Rhagwelir y bydd allbwn cig eidion yn yr UE yn gostwng**, wedi'i sbarduno gan fuchesi sugno sy'n crebachu, sy'n golygu bod llai o loi yn mynd i gynhyrchiant cig eidion.
- Gallai'r bwlch prisiau rhwng y DU a'r UE wella natur gystadleuol allforio'r DU, er y bydd prisiau cynyddol yn Iwerddon yn debygol o olygu prisiau mewnforio uwch yn ddomestig.
- Yn ogystal, efallai y bydd rhywfaint o **ansicrwydd masnach fyd-eang mewn perthynas â pholisi masnach yr Unol Daleithiau**.
- Mae'r cyfuniad o alw cadarn a chyflenwad tynn yn parhau i gefnogi prisiau cynhyrchwyr ar draws marchnadoedd y DU a'r UE.

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer diwydiant?

Mae sector cig eidion y DU yn profi cyfyngiadau cyflenwad cig eidion y disgwylir iddynt barhau i 2025. Efallai y bydd hyn yn parhau i gefnogi'r prisiau gwartheg cryf, fodd bynnag, gall tarfu parhaus oherwydd tariffau'r Unol Daleithiau effeithio ar lif masnach byd-eang. Ers mis Chwefror, mae'r bwlch prisiau rhwng cig eidion Iwerddon a Prydain Fawr wedi haneru bron, ac mae prisiau Iwerddon bellach yn agosáu at lefelau Prydain, gan wneud cig eidion Gwyddelig yn llai deniadol i fewnforwyr, ac o bosibl symud i gyflenwyr amgen (fel Awstralia neu Seland Newydd, fel y gwelir yn y data masnach diweddar).

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 19fed Ebrill

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **695.5c/kg**. Roedd hyn:

- + 3.6c ar yr wythnos flaenorol
- 209.3c yn uwch na lefelau blwyddyn gynt.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 693.5c/kg (+4.2c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 684.1c/kg (+2.6c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 524.0c/kg (+8.9c ar yr wythnos).

Trwybwn – Mawrth 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 223,300 pen – gostyngiad o 4% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 168,000 pen - i lawr 3% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -4%, heffrod -1%, a theirw ifanc -12%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 343.9kg (-0.7kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 46,900 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.





DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 19fed Ebrill

Roedd y pris cig oen pwysau marw ym Mhrydain ar gyfartaledd yn **702.9c/kg**. Roedd hyn:

- - 7.5c ar yr wythnos flaenorol
- - 157.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn gynt,
- 46.9c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 656.0c/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 24,700 pen. Roedd hyn:

- - 19% ar yr wythnos flaenorol
- - 1% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

Trwybwn – Mawrth 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 970,200 pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasau cig oen ar gyfartaledd = 21.2kg (+0.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 99,900 pen – i lawr 12% ar y flwyddyn.





MOCH

Prisiau – wythnos yn dod i ben 19fed Ebrill

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **205.6c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.7c ar yr wythnos flaenorol,
- - 5.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn gynt,
- 25.8c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 179.8c/kg).

**Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data yn cael ei effeithio.*

Trwybwn – Mawrth 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 873,100 pen – cynnydd o 6% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 857,200 pen – cynnydd o 6% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasau moch glân ar gyfartaledd = 91.4kg (+1.0kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 15,900 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.